



Theatr  
Genedlaethol  
Cymru



# ESTRON

gan / by Hefin Robinson

# **ESTRON**

gan Hefin Robinson

## **Cymeriadau**

ALUN *gwrywaidd*, 27

HAN *benywaidd*, 32

LEIA *estron*

## **Golygfa**

Fflat mewn dinas: soffa, bwrdd coffi, laptop, teledu ac ati.

Ar y wal gefn, tafluniad mawr o gynnwys sgrin y laptop: dogfen newydd, wag ar brosesydd geiriau.

## **Nodiadau**

Mae'r geiriau sy'n ymddangos ar y sgrin pan mae ALUN yn teipio mewn ffont *Courier*.

Mae unrhyw gynnwys arall sy'n ymddangos ar y sgrin, gan gynnwys sgysrsiau *Skype* a fideo, mewn ffont *Arial*.

# 1

*Mae ALUN yn eistedd mewn tawelwch, yn syllu ar sgrin y laptop. Jîns, crys-t, trainers. Dyma'r olygfa sy'n croesawu'r gynulleidfa wrth iddynt gyrraedd ac ymgartrefu yn eu seddau.*

## ***Daeargryn***

*Diffoddir y goleuadau nes bod dim ar ôl ond yr hyn sy'n dod o sgrin y laptop.*

*Saib hir.*

*O'r diwedd, mae ALUN yn dechrau teipio.*

*Dyn. Siwt, tei ac ati. Ugeiniau hwyr.*

*Mae ALUN yn dileu hwyr. ac yn teipio canol. yn ei le.*

*Mae'n parhau i deipio.*

*Hwn yw ALUN. Mae'n sefyll mewn tawelwch. Wrth ei draed, tun gwag.*

*Saib.*

*Saib.*

*Mae ALUN yn edrych at y drws.*

*Mae ALUN yn edrych at y drws.*

*Saib.*

*Mae ALUN yn dileu popeth sydd wedi'i deipio hyd yn hyn. Mae'n cau'r laptop.*

*Tywyllwch.*

*Sŵn y byd, y bydysawd a phopeth sydd ynddo. Popeth sydd wedi bod a phopeth sydd i ddod.*

*Trwy'r tywyllwch, daw llais.*

LEIA: *(Llais)* Mae'r byd – y ddaear – yn bodoli o fewn cysawd yr haul – un o'r biliynau o systemau solar sydd yn bodoli yng ngalaeth y Milky Way – sydd yn un o biliynau o galaxies sydd yn bodoli o fewn ein bydysawd.

Mae'r tebygolrwydd o fywyd yn y bydysawd hwn yn finiscwl.

Ni ddylai bywyd fodoli.

Er bod bron dim siawns ystadegol o unrhyw fywyd yma o gwbl, mae'r bydysawd yn llawn bywyd. Bywyd yn ffynnu ar ddaear y solar system hon, ac ar blanedau eraill ar hyd y biliynau o solar systems o fewn y biliynau o galaxies yn ein bydysawd.

Mae'r bydysawd yn fyw, a phob un darn o fywyd yn werthfawr tu hwnt i ddealltwriaeth.

Pob un bod dynol.

*Cerddoriaeth uchel.*

*Mae ALUN yn mynd ati i greu ei fflat. Wrth i'r ddrama fynd yn ei blaen, dylid teimlo fel petai byd y llwyfan yn tyfu, yn esblygu ac yn dirywio trwy ddwylo ALUN.*

*Mae ALUN yn gafael mewn tun mawr o 'Quality Street'. Mae'r caead wedi ei gau'n dynn.*

*Y gerddoriaeth yn dod i ben.*

ALUN           *(Yn siarad i'r tun o 'Quality Street')* Rydw i am dy roi di ar y bwrdd coffi fan hyn.  
 Ikea.  
 Y bwrdd coffi.  
 Nid bod angen i ti wybod hynny, ond mae pobol yn gofyn weithiau.  
 'Is that a Nornäs?'  
 Why yes, it is. I assembled it myself. Now use that coaster or I'll shoot your stupid head off.  
 Fyddi di ddim yn ymwybodol o Ikea.  
 Y cysyniad o 'Ikea'.  
 Rydw i'n hoff iawn.  
 O'r cysyniad.  
 Popeth yn ei le a lle i bopeth. Aros y tu mewn i'r llinellau. Dilyn yr arwyddion ar hyd y daith er mwyn gweld a phrofi popeth sydd angen.  
 Dim surprises.  
 Pawb yn gwybod yn union beth i ddisgwyl.  
 Profiad effeithlon tu hwnt.  
 Polished.  
 Ac mae'r Swedish meatballs yn dda iawn hefyd.

Rydw i am gadw'r caead ar y tun os yw hynny'n iawn?  
 Mi fydd hi'n galw cyn bo hir. Dydw i ddim eisiau iddi dy weld di.  
 Ddim 'to.  
 Dyw hi ddim yn barod.  
 Mae'r ddynol ryw yn dueddol o fod yn gaeedig tuag at bethau newydd.  
 Pethau gwahanol.  
 Dyna sy'n egluro llwyddiant Ikea.  
 Pobol yn hoffi'r cyfarwydd.  
 Hoffi gwybod beth i ddisgwyl.  
 Y rheswm dros ein hofn o farwolaeth, am wn i.  
 The unknown.  
 Pobol yn hoffi gwybod beth sy'n dod.  
 Predictability.  
 Yn hoffi pethau wedi'u gwneud mewn ffordd arbennig.  
 Roedd hen ffrind i fi yn bwyta'r union un frechdan ar yr union un diwrnod bob wythnos yn 'rysgol. Dydd Llun, ham. Dydd Mawrth,

cheddar. Mercher, twrci Bernard Matthews. Iau, caws soft. Dydd Gwener, fish paste. Bob wythnos. Dim eithriadau.  
Dim byd annisgwyl.  
Well-oiled machine.  
Mae gan ddynoliaeth bosibiliadau helaeth, ond mae'r rhan fwyaf ohonom yn cadw ein byd yn fach er mwyn gwneud pethau'n haws.  
Dim sialens.

*Mae HAN yn ymddangos ar y sgrin mewn sgwrs 'Skype'.*

HAN           Wyt ti really'n mynd i agor drama yn wafflo am Ikea?

*Erbyn hyn, mae ALUN yn eistedd o flaen y laptop.*

ALUN           *(I'r sgrin)* Ti ddim yn meddwl bod e'n gweithio?

HAN           Sai'n gwbod . . . O'dd y bit am y meatballs yn eitha doniol.

ALUN           Ma' pawb yn hoffi meatballs Ikea.

HAN           Heblaw vegetarians. Ac ma'n rhaid i ti gael gwared o'r bit 'da'r sandwiches. Ma'n mynd mla'n a mla'n. O'n i'n bored yn darllen e.

ALUN           Dyna'r pwrpas. Routine. Dangos diflastod bywyd.

HAN           Am Owen o't ti'n siarad, ontefe?

ALUN           Ie, Owen rhywbeth. Yr un hen frechdanau trwy'r ysgol gynradd i gyd.

HAN           A neb ishe eistedd drws nesa iddo fe bob dydd Gwener achos bod y fish paste yn drewi.

ALUN/HAN    Fish paste Fridays.

*Daw HAN i'r llwyfan yn cario bag sy'n dal dwy croissant.*

HAN           Alun? Ti 'ma?

ALUN           *(I'r HAN ar sgrin y laptop)* Gwranda, fi'n gorfod mynd.

HAN           Nawr?

ALUN           Siarada i gyda ti cyn bo hir.

HAN           lawn. Ni'n mynd i'r traeth mewn munud.

ALUN           Joiwch.

HAN           Ta-ra.

*Daw'r sgwrs 'Skype' i ben.*

ALUN        Ges di'r croissants?

HAN         Wel helô Hanna, sut wyt ti? Sut o'dd y siwrne?

ALUN        Sori.

*Mae HAN yn rhoi cwtsh i ALUN.*

HAN         Ti'n ok?

ALUN        Iawn. Ti?

HAN         Ges i'r croissants.

ALUN        Diolch, Han.

HAN         Wedes di ddim bod y bakery 'di cau.

ALUN        Pa un?

HAN         Yr un rownd y gornel.

ALUN        Yw e?

HAN         Siop wag arall ar y stryd 'na nawr.

ALUN        Ble ges di'r croissants, 'te?

HAN         Tesco Metro.

ALUN        Y bakery 'di cau?

HAN         Ciw ridiculous. O'dd y self checkout out of order.

ALUN        Pam gaeodd e?

HAN         Sai'n gwbod. Ffaelw cystadlu gyda'r siopau mwy?

ALUN        Ddim yn cynnig Clubcard points.

HAN         Yw'r tegell 'mlaen 'da ti, neu –

ALUN        O ie . . . Ie, wrth gwrs. Sori. Eistedda.

*Mae ALUN yn mynd ati i wneud dau fwg o de.*

HAN         Ti brynodd rhain?



ALUN Beth?

HAN Y Quality Street.

ALUN Na. Hen dun, 'na'i gyd.

HAN Pam mae e ar y coffee table? Rhan o'r feng shui?

ALUN Wedi'i adael yna am funud.

HAN Beth sy mewn 'na?

ALUN Dim.

HAN Dim byd?

ALUN Dim byd o bwys.

HAN Ti'n od.

ALUN Mae e yn y genes.

HAN Speak for yourself. Fi ga'th y rhai da i gyd. Y plentyn cynta, ti'n gweld. Good looks. Hiwmor. Intelligence.

*Mae ALUN yn chwervthin.*

OK, ges di bach o'r brains hefyd.

ALUN Good save.

HAN Fi 'di dod â mwy o gardie i ti gael 'u darllen.

ALUN Maen nhw'n dal i gyrraedd?

HAN Y tŷ'n llawn ohonyn nhw.

ALUN Card factory.

HAN Meddylia am yr holl goed!

*Mae ALUN yn dod at y bwrdd coffi gyda'r ddau fwg o de.*

ALUN Coasters.

HAN Beth?

ALUN Y coasters.

*Mae HAN yn gafael mewn dau fat ar gyfer y diodydd. Mae ALUN yn rhoi'r mygiau ar y matiau.*

Hang on . . .

*Mae ALUN yn gafael mewn dau blât.*

Briwsion. Dydw i ddim eisiau croissant dros y llawr.

HAN Ti fel un o'r Stepford Wives.

ALUN Na. Trefnus. Taclus. Glân.

HAN Rydw i'n lân hefyd.

ALUN Ha!

HAN Ti sy'n anal, 'na'i gyd.

ALUN Gwell anal na banal.

HAN Banâl.

ALUN Fi'n gwbod, ond –

HAN Pwy wedodd hwnna? Shakespeare?

*Saib. Mae'r ddau yn bwyta eu croissants ac yn yfed eu te yn araf.*

ALUN O le ga i fara nawr?

HAN Beth?

ALUN Nawr bod y bakery wedi cau?

HAN Tesco Metro.

ALUN Na. Mass-produced.

HAN Snob.

ALUN Fi'n siŵr bod tua chwe siop wag ar y stryd 'na nawr.

HAN Ma' Ladbrokes yn dod i un ohonyn nhw. Sign yn y ffenest. 'Coming soon.'

ALUN Siop fetio?

HAN What are the odds!

*Saib. Bwyta. Yfed.*

*(Yn betrus)* So sut wyt ti?

ALUN Iawn.

HAN Really?

ALUN Ie.

HAN Siŵr?

ALUN Ydw. Ti?

HAN Fine.

ALUN Good.

*Saib.*

HAN Mae'n teimlo'n od. Fi'n dal i deimlo'n . . . od.

ALUN A fi.

HAN Wir?

ALUN Dyw e ddim yn teimlo'n real.

HAN Fi'n gwbod.

ALUN Dal i ddisgwyl i bethau . . .

HAN Beth?

ALUN . . .

HAN Beth?

ALUN Na.

HAN Gwêd, Alun.

ALUN Disgwyl i bopeth fynd 'nôl fel roedden nhw.

HAN Fi'n deall.

ALUN Disgwyl . . . dydw i ddim yn hollol siŵr. Mae'n teimlo fel ffantasi. Fel nad yw hyn mewn gwirionedd wedi digwydd. Methu credu. Methu derbyn.

HAN           Ie . . .

*Saib. Bwyta. Yfed.*

ALUN          Felly pryd mae'r cyfarfod?

HAN           Pa gyfarfod?

ALUN          Cyfarfod gwaith.

HAN           Wedes i ddim bod cyfarfod gwaith.

ALUN          Ma' 'na wastad gyfarfod. Pam arall dod yr holl ffordd lawr?

HAN           I dy weld di.

ALUN          Cau dy ben.

HAN           Ma' 'da fi newyddion.

*Tywyllwch.*

*Dogfen wag ar y prosesydd geiriau.*

MONOLOG - rwy'n gobeithio dy fod ti'n ei hoffi?

*Mae ALUN yn teipio ar y laptop.*

ALUN: Rydw i'n boddi. Rydw i'n teimlo fel bod

*Saib.*

ALUN Rydw i'n teimlo fel bod . . .

*Saib.*

Fel bod . . .

*Mae ALUN yn codi o'r ddesg ac yn mynd i flaen y llwyfan. Mae'n siarad gyda'r gynulleidfa.*

Rydw i'n dychmygu fy hun mewn ffilm.  
Rydw i'n dychmygu fy hun yn eistedd mewn sinema ac yn gwyllo fy hun ar y sgrin fawr. Rydw i'n eistedd mewn sinema yn y ffilm yn gwyllo ffilm arall ohona i ar y sgrin. Ffilm o fewn y ffilm.  
Ac ar y sgrin, rydw i'n sefyll yn stond. Yn hollol lonydd. Ac mae'r byd yn parhau i symud o 'nghwmpas. Yn gyflym. Yr effaith o bopeth yn symud yn gyflym iawn a fi yn y canol yn llonydd ac yn syllu'n syth at y camera.  
Fel petai popeth yn ormod i mi.  
Overwhelming.  
Fel petai'r fi ar y sgrin yn boddi ym mhrysurddeb y byd.  
Yn diflannu.  
Yn anweledig.  
A'r byd yn parhau i droi.  
A'r bobol yn parhau i fyw.  
A fi'n methu deall hynny.  
Yn methu deall sut mae'r byd yn parhau i droi a'r bobol yn parhau i fyw pan mae popeth i fi wedi newid.  
Pan mae popeth wedi dod i ben a dim ffordd bosib o weld y byd eto yn yr un ffordd.

*Mae ALUN yn teimlo'r ddaeargryn yn codi.*

*'Incoming call' oddi wrth HAN ar Skype. Y dôn yn canu am amser hir. Mae'n dod i ben.*

*'Incoming call' eto. Y dôn yn canu. Yn y diwedd, mae ALUN yn ateb.*

*Mae ALUN yn eistedd wrth ei laptop.*

HAN           Ble o't ti?

ALUN          Pryd?

HAN           Nawr. Pam cymryd mor hir i ateb?

ALUN          Yh . . .

HAN           O't ti yn y toilet?

ALUN          Na.

HAN           O't ti ar y toilet, guaranteed.

ALUN          Nag oeddwn.

HAN           Shit of the century.

ALUN          Paid.

HAN           Sut ma' Leia?

ALUN          Mae hi'n iawn.

HAN           Ma' hi'n dal i fod 'na, 'te?

ALUN          Ydy.

HAN           O'n i'n meddwl 'i bod hi ar y ffordd mas? O'n i'n meddwl bod ti'n cael help.

ALUN          Rydw i yn cael help.

HAN           Pam ma' hi dal 'na, 'te?

ALUN          Mae'n cymryd amser.

HAN           Ti 'di cael amser.

ALUN Dwyt ti ddim yn deall.

HAN Wrth gwrs 'y mod i'n deall.

ALUN Mae'r ysgrifennu'n helpu.

HAN Ti heb ddanfon unrhyw beth i fi am sbel.

ALUN Mae'n breifat.

HAN Fi ishe darllen dy stwff di, Alun.

ALUN Pam?

HAN Mae e'n helpu fi i ddeall sut ti'n teimlo.

ALUN Wir?

HAN Ie.

ALUN OK . . . mi ddanfona i rywbeth i ti. Monolog.

HAN Pryd?

ALUN Pryd?

*Mae HAN yn ymddangos ar y llwyfan.*

HAN Pryd?

*Mae ALUN yn awr wedi ei ddal mewn sgwrs rhwng HAN ar Skype a HAN yn y fflat. Mae'n symud yn ôl ac ymlaen o'r laptop. Ei feddyliau'n cymysgu.*

ALUN (*I HAN*) Pryd wyt ti'n mynd?

HAN Ma' cwpwl o fisoedd eto.

HAN Pryd, Alun?

ALUN (*I HAN*) Nes 'mlaen. Mi ddanfona i'r monolog draw prynhawn 'ma.

HAN Fyddwn ni ddim yn mynd yn syth.

HAN Diolch.

ALUN (*I HAN*) Pam nawr?

HAN Gwna'n siŵr dy fod ti.

ALUN (*I HAN*) Nid nawr yw'r amser i fynd i ochr arall y byd.

HAN Fi 'di bod yn meddwl am fynd ers amser.

ALUN (*I HAN*) A hwn yw'r tro cyntaf i fi glywed am y peth?

HAN Ma' Luke wedi bod yn gofyn amdanat ti.

HAN Ni'n meddwl 'i fod e'n amser da i fynd.

ALUN (*I HAN*) Ni?

HAN Fi a Luke.

HAN Mae e'n gofyn pryd ti'n dod i'n gweld ni.

ALUN (*I HAN*) Ti'n mynd gyda Luke?

HAN Wrth gwrs.

ALUN Dwyt ti a Luke ddim yn mynd i bara'.

HAN A fi ishe i ti gwrdd â dy nith.

HAN Ddim yn mynd i bara'?

ALUN (*I HAN*) Fydden i'n dwlu dod i'ch gweld chi. Fi eisiau dod.

HAN Ti'n serious?

HAN Dere, 'te.

ALUN (*I HAN*) Na, dydw i ddim yn serious. Na, ond –

HAN Dere.

ALUN (*I HAN*) Na . . .

(*I HAN*) Na.

(*I HAN*) Na, mae'n ddrud. Alla i ddim fforddio flights i Australia.

HAN Sut wyt ti'n gwybod pa fath o berthynas sy 'da Luke a fi?

HAN Fe dalwn ni.

ALUN (*I HAN*) Sai'n gallu delio 'da hwn ar hyn o bryd.

HAN Fi'n gwbod bod e'n mynd i fod yn anodd, ond –

ALUN (*I HAN*) Paid. Paid mynd.



HAN Alun?

ALUN (*I HAN*) Plis.

HAN Fi'n gorfod mynd rhywbryd.

ALUN (*I HAN*) Beth mae hwnna i fod i feddwl?

HAN Ti'n clywed?

ALUN (*I HAN*) Paid rhedeg i ffwrdd nawr.

HAN Rydw i'n hapus i dalu i ti ddod.

HAN Sai'n rhedeg i ffwrdd.

ALUN (*I HAN*) Dydw i ddim yn charity case.  
(*I HAN*) Wyt.

HAN Delio â phethe ydw i.

ALUN (*I HAN*) Wrth droi dy gefn ar bopeth sy gen ti fan hyn?

HAN Trio helpu ydw i, Alun.

HAN Troi fy nghefn ar beth?

HAN Ti ffaelu troi dy gefn ar dy deulu.

HAN Beth sy ar ôl i fi fan hyn?

HAN Ni yw'r unig deulu sy gen ti.

HAN Ma' Mam wedi mynd, Alun. Ma' hi 'di mynd.

ALUN (*I HAN*) Fi'n gwybod, ond –

HAN Fydda i ond galwad Skype i ffwrdd.

ALUN (*I HAN*) Ti yw'r unig un sy yn yr un sefyllfa â fi. Pa linc sydd gen i â Mam os wyt ti'n mynd i ochr arall y blincin blaned?

HAN Alun, gwranda . . .

HAN Gwranda, Alun . . .

HAN Rydw i eisiau helpu.

HAN Dyw'r ffaith fy mod i'n symud i Awstralia ddim yn dileu Mam. Nid fi yw'r linc rhyngot ti a Mam.

HAN Ti'n bwysig i fi, Alun . . .

HAN Ti . . .

HAN Rydw i eisiau helpu.

HAN Ti yw'r linc rhyngot ti a Mam. Neb arall. Mae hi'n byw ynot ti.

*Mae HAN yn gwenu'n garedig.*

Yn dy atgofion. Mae hi'n parhau i fodoli yn dy bersonoliaeth. Yn y ffordd rwyt ti'n bihafio. Ti'n sensitif, Alun. Ti'n garedig. Jyst fel Mam. Mae hi 'na yn y ffordd rwyt ti'n siarad. Yn dy jôcs gwael.

*Mae ALUN yn gwenu'n ysgafn.*

Fi'n gallu'i gweld hi yn dy wên.

Gwên Mam yw honna.

HAN Ti ddim ar dy ben dy hun.

HAN Fyddi di byth ar dy ben dy hun.

HAN Rydw i yma . . .

HAN Fydda i yna.

HAN Wastad.

HAN Bob tro.

*Saib.*

*Mae ALUN yn edrych ar HAN ar y sgrin, yna at HAN yn yr ystafell fyw.*

ALUN Iawn.

*Saib.*

*Mae HAN yn mynd at y tun o 'Quality Street' sy ar y bwrdd coffi. Yr HAN ar y sgrin yn gwylio.*

HAN Beth ma' hwn yn dal i 'neud 'ma?

ALUN Dim.

HAN            Seriously, beth sy mewn 'na?

*Mae HAN yn mynd at y tun.*

ALUN          Paid.

HAN            Fi'n intrigued . . .

*Mae hi'n mynd i agor y tun.*

ALUN          Paid.

HAN            Jyst ishe pip bach.

*Mae ALUN yn rhuthro'n grac at HAN ac yn ei thynnu oddi wrth y tun cyn iddi godi'r caead.*

ALUN          Paid.

HAN            Alun . . . beth sy'n mynd 'mlaen?

*Tywyllwch.*

*Unwaith eto, mae ALUN yn teimlo'r ddaeargryn yn codi. Mae'n ymladd yn ei herbyn – yn gwthio'r ddaeargryn i lawr i'r dyfnderoedd, allan o'r ffordd.*

## 6

*Mae'r gerddoriaeth yn uchel iawn.*

*Mae ALUN a HAN wedi meddwi. Mae gan HAN bentwr o wydrau shot plastig a photel o Tequila. Mae hi'n arllwys shot o Tequila yr un iddynt.*

HAN           Un, dau, tri . . .

*Mae'r ddau'n yfed. Mae HAN ar fin arllwys eto.*

ALUN          Stop!

HAN           Beth?

ALUN          Stop.

HAN           P . . . pam?

ALUN          Achos.

HAN           Achos?

ALUN          Achos.

HAN           Achos.

ALUN          'Drycha.

*Mae ALUN yn cyfeirio at y gynulleidfa.*

'Drycha.

*Mae HAN yn chwerthin.*

HAN           'Drycha arnyn nhw.

ALUN          *(I'r gynulleidfa)* Helôôôôô!

HAN           Good looking!

ALUN          Ti'n galw fi'n g . . . good looking?

HAN           Nagw. Nagw. Na . . . nagw.

ALUN          Strangely attractive, falle . . .

HAN (Yn cyfeirio at y gynulleidfa) Na, nhw.

ALUN Nhw?

HAN Nhw.

*Mae HAN yn chwervthin. Mae ALUN yn chwervthin.*

ALUN Helôôôôô!

HAN Shots!

ALUN Nhw?

HAN Ie. I . . . ie.

ALUN Shots!

*Mae ALUN yn cymryd y pentwr o wydrau shot ac yn dechrau eu dosbarthu i'r gynulleidfa. Mae HAN yn dilyn gyda'r botel o Tequila ac yn llanw'r gwydrau. Y ddau'n gofyn i'r aelodau o'r gynulleidfa sydd â shot i beidio ag yfed eto. Pan mae'r shots wedi'u dosbarthu, mae ALUN a HAN yn cymryd un hefyd.*

HAN Reit. Reit. Shhhhh . . .

*Mae hi'n amneidio at y rheolwr llwyfan i ddiffodd y gerddoriaeth. Mae'r gerddoriaeth yn dod i ben.*

OK. OK. OK.

ALUN OK. Mae hwn yn cool.

HAN OK. Shhh. Shhh. OK? Ar ôl tri.

ALUN Un, dau –

HAN Na, fi sy'n 'neud.

ALUN Na.

HAN Ie.

ALUN OK.

HAN Exactly.

ALUN Exactly.

HAN Barod? Barod? Shhh. Barod?

ALUN Barod.

HAN Un, dau, tri . . .  
Go!

*Y ddau'n yfed. Y gynulleidfa'n yfed hefyd, gobeithio – ALUN a HAN yn annog, efallai.*

*(Yn gweiddi-canu) Lawr y lôn goch!  
Lawr y lôn goch!*

ALUN Hang on!

HAN Beth?

ALUN Hang on.

HAN Ie. Beth?

ALUN Rydw i . . .

HAN Ie . . . ?

ALUN Rydw . . .

HAN Ie . . . ?

ALUN Fi'n mynd i fod yn sick.

HAN Naaaa . . .

*Mae ALUN yn chwydu. Mae HAN yn cwmpo i'r llawr yn chwerthin.*

ALUN Paid. Paid chwerthin.

*Mae HAN, sy'n dal i chwerthin, yn gafael mewn gwydraid o ddŵr.*

Cau dy ben. Fi'n sâl. Fi'n –

*Mae ALUN yn chwydu eto. Mae HAN yn rhoi'r gwydraid o ddŵr ar y bwrdd coffi.*

Coaster! Rho fe ar y fucking coaster!

*Mae HAN yn gwneud.*

Beth sy'n anodd am roi drink ar coaster?  
Seriously.  
Na. Na. Seriously.  
Beth sy'n anodd amdano fe?

*Mae ALUN yn mynd at y bwrdd coffi.*

Fi aleidalodd hwnna.  
Fi al . . . alei . . . buildodd y bwrdd 'na.  
Nornäs.  
Ti'n deall?  
Swedish.  
Nornäs.  
Mae'n meddwl 'beautiful'.

HAN Yw e?

ALUN Na.  
Ond y point yw mai fi greodd y Nornäs 'na.  
My own sweat and blood.  
Ti'n gweld?  
Felly mae angen parch.  
"Respect the Nornäs.  
Appreciate the Nornäs.  
Use a coaster."  
Ti'n deall?

HAN Ti'n really feddw.

ALUN Shut up.  
Nawr gwed e.

HAN Dweud beth?

ALUN Dwi'n caru'r Nornäs.

HAN Dwi'n caru'r Nornäs.

ALUN Eto.

HAN Dwi'n caru'r Nornäs.

ALUN Yn uwch.

HAN Dwi'n caru'r Nornäs.

ALUN *(I'r gynulleidfa)* Gwedwch e!

*Mae ALUN yn parhau fel hyn nes bod y gynulleidfa'n ymateb.*

Yn uwch!

*Y gynulleidfa'n ymateb.*

Uwch!

*Y gynulleidfa'n ymateb.*

Good!  
So beth 'yn ni wedi'i ddysgu?  
Han?

HAN Love the Nornäs.

ALUN Ac os wyt ti'n caru'r Nornäs, beth wyt ti'n ddefnyddio?

HAN Coaster.

ALUN Eto.

HAN Coaster.

ALUN Good.

*Mae ALUN yn cwmpo i'r soffa.*

*Saib.*

HAN Fi'n teimlo'n guilty.

ALUN Fel dylet ti.

HAN Na, ddim am y coaster.

ALUN O.

HAN Am Mam.

ALUN Mam?

HAN Achos bod ni'n mwynhau.

ALUN Yn euog?

HAN Am ein bod ni'n joio a Mam wedi mynd.

ALUN Mae'n teimlo'n annaturiol. Od.

HAN Ie.

ALUN Fel petai pobol sy'n galaru a dim hawl i fwynhau.

HAN Er na fydde Mam ishe i ni fod yn ddiflas.

ALUN Gwir.



HAN           Mi fyddde Mam ishe i ni gario 'mlaen.

ALUN          Ie. Fi'n credu.

HAN           Dim doubt. Ond fi'n dal i deimlo'n ofnadw' o euog.

ALUN          Capel.

HAN           Beth?

ALUN          Capel sy wedi gwneud i ni deimlo fel 'na. Magwraeth capel.

HAN           Ti'n meddwl?

ALUN          Ma'r ysgol Sul yn magu euogrwydd.

HAN           Beth?

ALUN          Euogrwydd yw sail crefydd.

HAN           Na.

ALUN          Mae'n bwydo ar euogrwydd.

HAN           Ti'n siarad nonsens.

ALUN          Nac ydw.

HAN           Wyt.

ALUN          Falle.

HAN           Yn bendant.

ALUN          Ti'n meddwl?

HAN           Y galar sy'n gwneud i ni deimlo'n euog.

ALUN          Galaru?

HAN           Ma'r galar yn diffodd rheswm.

ALUN          Yr alcohol sy'n diffodd rheswm.

HAN           Rationality. Ti'n gwbod?

ALUN          Rationality.

HAN Does dim byd rational am farwolaeth. Ma' galaru'n dod ag emosiynau rhyfedd mas mewn pobol.

ALUN Mae Tequila'n dod ag emosiynau rhyfedd allan mewn pobol hefyd.

HAN Serious. Gwranda.

ALUN Fi yn gwrando.

HAN Dyna'r rheswm dros yr euogrwydd. Mae'n anodd egluro achos dyw'r euogrwydd ddim yn rational.

ALUN Psych . . . ti fel psycho . . . whatever.

HAN Ni'n teimlo pethe od. Pethe sy fel arfer yn annaturiol yn y sefyllfa.

ALUN Fi ishe watcho Jeremy Kyle.

HAN Gweld . . . annaturiol!

ALUN Hang on . . .

*Mae ALUN mynd ati i droi'r teledu ymlaen.*

HAN Sai'n credu bod Jeremy Kyle 'mlaen nawr.

ALUN Repeats. Ma' nhw'n dangos repeats yn y nos.

HAN Pam wyt ti ishe gweld Jeremy Kyle, anyway?

ALUN Achos . . .

HAN Ie . . . ?

ALUN Achos . . .

HAN Achos beth?

ALUN Dim syniad. Fi'n casáu Jeremy Kyle.

HAN Idiot.

Mae HAN yn ymddangos ar 'Skype'.

HAN Sai byth yn galw ti'n idiot. Pam rhoi hwnna mewn?

ALUN Ffuglen. Dyw e ddim yn real.

HAN Beth? Hwn?

ALUN            Jeremy Kyle.

HAN             Ma'r olygfa meddwi ti 'di danfon draw yn bizarre hefyd . . .

ALUN            Fi'n siŵr bod y Jeremy Kyle Show yn scripted. Drama wedi'i seilio ar ryw fath o realiti.

HAN             Yr holl beth.

ALUN            Mae'r gwir yna yn rhywle, ond mae'n anodd gweld lle mae'r ffuglen a'r ffaith yn cwrdd.

HAN             Fi ddim yn hoffi'r audience interaction ar ddechrau'r olygfa chwaith. Mae'n teimlo'n forced.

HAN             Alun . . .

HAN             Sai ishe bod yn negatif ond . . .

HAN             Pam ydw i'n dal 'ma?

HAN             Constructive criticism.

ALUN            *(I'r gynulleidfa)* Pam mae hi'n dal yma?

HAN             Seriously, s'neb yn lico audience interaction. Yn enwedig cynulleidfaoedd Cymraeg. Bydd raid i ti gael gwared o'r stwff 'da'r alcohol.

ALUN            Pam?

HAN             Sai'n credu bod neb yn mynd i yfed shots yn y theatr. Mae'n weird. Dim ond weirdos fydde'n 'neud e.

ALUN            *(I'r tun o 'Quality Street')* Pam mae hi'n dal i fod 'ma?

HAN             A'r tun.

HAN             'Da pwy wyt ti'n siarad?

HAN             Mae'n hen bryd i ti agor y tun.

HAN             Alun?

HAN             Ti 'di cadw'r dirgelwch yn ddigon hir.

HAN             'Da pwy wyt ti'n siarad, Alun? Beth sy yn y tun?

HAN             Pryd wyt ti'n mynd i ddatgelu cynnwys y tun?

ALUN        Leia.

HAN         Leia?

HAN         Ma'r gynulleidfa wedi aros digon.

HAN         'Da Leia wyt ti'n siarad?

HAN         Come on . . .

HAN         Neu Leia sydd yn y tun?

HAN         Put them out of their misery.

HAN         Ti'n gwrando?

HAN         Ti'n clywed?

ALUN        Y ddau.

HAN         Beth?

ALUN        Rwy'n siarad â Leia. Leia sy yn y tun.

HAN         Jyst agora fe.

HAN         Sai'n deall.

ALUN        Mae angen i mi egluro.

HAN         Agora fe.

HAN         Egluro beth?

ALUN        Mae'n gymhleth.

HAN         Agora fe.

ALUN        Gad i fi –

HAN         Alun . . .

HAN         Agora'r blydi tun!

ALUN        Fine! Fine . . . OK . . .

*Yn ofalus, mae ALUN yn codi'r caead oddi ar y tun. Mae HAN yn edrych i mewn.*

HAN    Beth yn y byd . . . ?

*Sŵn bywyd a'r bydysawd.*

LEIA: (*Llais*) Datganiad . . .

Ar y blaned hon, mae'r tebygolrwydd o fywyd dynol yn agos at ddim.

Mae'r tebygolrwydd bod dyn a menyw yn cwrdd, yn teimlo atyniad, yn aros gyda'i gilydd ac yn penderfynu ceisio am blentyn yn un mewn pedwar deg miliwn.

O ganlyniad, mae'r tebygolrwydd bod un o wyau'r fenyw yn dod i gysylltiad gydag un o sbermau'r dyn yn un mewn pedwar can cwadriliwn.

Mae tebygolrwydd bywyd y dyn a'r fenyw yn dibynnu ar bob un o'r cenedlaethau cynt yn atgenhedlu ac yn cael plentyn hefyd – can pum deg mil o genedlaethau o'u blaenau, ac un wy yn dod i gysylltiad gydag un sberm bob tro nes iddyn nhw greu ein menyw a'n dyn ni.

Mae'r tebygolrwydd o fodolaeth, felly, i bob person ar y ddaear heddiw yn un mewn deg i'r pŵer o ddwy filiwn, chwe chant ac wyth deg pum mil.

Sydd, mewn termau cyffredinol, yn zero.

A dyw hynny'n ddim o'i gymharu â thebygolrwydd y blaned ei hun o gynnal bywyd yn y lle cyntaf dros bedwar pwynt pump biliwn o flynyddoedd yn ôl.

Ni ddylai bywyd fodoli.

Mae bywyd yn wyrthiol.

Yn werthfawr tu hwnt i ddealltwriaeth.

*Mae ALUN wrth y laptop yn teipio.*

ALUN Mae'r posibilrwydd o fywyd yn eithafol o fach.  
Mewn termau ystadegol.  
Dylai bywyd ddim bodoli.  
Ond mae bywyd yn bodoli.  
Paradox.

Paradox? - Han, ai dyna'r gair?

Pam, felly, cymryd bywyd yn ganiataol?  
Os mai gwyrth yw bywyd?  
Pam ydyn ni'n parhau i fyw bywydau trefnus, rheolaidd, caniataol?  
Does dim byd routine am fywyd.  
Mae bywyd yn anniben.  
Dim . . . beth yw'r gair . . . predictability.  
(*I'r gynulleidfa*) Beth yw 'predictability' yn Gymraeg?  
Rhywun?  
Ta beth.

Mae gan fywyd nifer o ochrau.  
Onglau.  
Nifer o rannau.  
Dim rheolau.  
Dim ffurf daclus.  
Nid trip i Ikea.  
Nid dyna yw bywyd.  
Popeth ar unwaith ac yna dim byd o gwbl.  
Fel daeargryn.  
Dyna gyflwr byw.

Ac eto.  
Er i ni gymryd bywyd yn ganiataol.  
Rydym yn coroni marwolaeth.  
Yn parchu.  
Yn ofni.  
Addoli.  
Er mai marwolaeth yw'r un peth y gallwn ei ragweld.  
Yr un peth sydd yn hollol ganiataol.

Datganiad . . .

Mae'r tebygolrwydd o farwolaeth ar y blaned hon yn gant y cant.  
100%  
I bawb.  
Bob tro.

Rhaid agor ein llygaid.  
Rhaid cofio byw.

*Tywyllwch.*

*Y gerddoriaeth yn uchel iawn.*

*Mae ALUN yn codi'r caead oddi ar y tun 'Quality Street' yn araf a pharchus. Yn yr un ffordd, mae'n codi'r eitem sydd y tu mewn i'r tun: sffêr wen. Dyma LEIA. Mae ALUN yn codi LEIA i'r awyr yn ddefodol, cyn ei rhoi i orffwys ar y bwrdd coffi.*

*Mae'r gerddoriaeth yn diffodd.*

HAN Alien?

ALUN Ie.

HAN Really?

ALUN O fath.

HAN Fel E.T.?

ALUN Ddim fel E.T.

HAN Sai'n deall.

ALUN Deall beth?

HAN Alien . . .

ALUN Ie.

HAN Alien?

ALUN Alien.

HAN Alien yw hwnna?

ALUN Sawl gwaith wyt ti eisiau dweud 'alien'?

HAN Ond . . .

ALUN Ond?

HAN Pêl. Pêl yw hwnna.

ALUN Nage.

HAN Iege.

ALUN Dyw iege ddim yn air.



HAN Dyw aliens ddim yn bodoli.

ALUN Ydyn.

HAN Nadyd.

ALUN Unwaith eto, does dim shwd air â nadyd.

HAN Unwaith eto, does dim shwd beth ag aliens.

ALUN Beth, 'te?

HAN Pêl.

ALUN Pa fath o bêl? Wyt ti wedi gweld pêl fel hyn o'r blaen?

HAN Na.

ALUN Wel dyna ni.

HAN O le ges di fe?

ALUN Hi.

HAN Beth?

ALUN Hi. 'Hi' yw'r bêl.

HAN Pêl!

ALUN Na. Na, Alien. 'Hi' yw'r alien.

HAN Sut wyt ti'n gwbod? Ble mae'r vagina?

ALUN Oh my god.

HAN Beth yw e really, Alun?

ALUN Rydw i wedi dweud –

HAN Come on. Bydda'n onest.

ALUN Jyst gwranda –

HAN Rhyw weird sex toy?

ALUN Pod.

HAN Pod?

ALUN O'n i'n cerdded trwy'r parc pan ddes i o hyd iddi.

HAN Na.

ALUN Ie.

HAN Felly wnes di godi'r peth 'ma o'r llawr?

ALUN Curiosity.

HAN Beth os yw e'n beryglus?

ALUN Hi. Dyw hi ddim yn beryglus.

HAN Sut wyt ti'n gwbod?

ALUN Rydw i'n gwybod.

HAN Falle taw bom yw e.

ALUN Hi. Wyt ti wedi gweld bom fel hyn o'r blaen?

HAN Pwy sy'n gwbod pa fath o shit 'ma Isis yn iwso dyddie 'ma.

ALUN Nid bom yw hi.

HAN Nid 'hi' yw hi. Peth. Gwrthrych.

ALUN Na, mae hi'n fyw.

HAN Sut yn union wyt ti'n gwbod bod y bêl 'ma'n fyw?

ALUN Rydw i'n gwbod.

HAN Ac yn gwbod hefyd mai 'hi' yw'r peth 'ma? Sut wyt ti'n gwbod hyn i gyd?

ALUN Hi ddywedodd.

*Saib.*

HAN Hi . . . ddywedodd?

ALUN Ie.

HAN Mae hi'n siarad 'da ti?

ALUN Eglurodd Leia bopeth.

HAN           Leia. Dyna’i henw hi? Really?

ALUN          Fi roddodd yr enw iddi. Doedd ganddi ddim enw dynol –

HAN           Wilson Syndrome.

ALUN          Wilson beth?

HAN           Y bêl. Yn y ffilm *Castaway*. Wyt ti ’di tynnu llun gwyneb ar yr ochr arall?

ALUN          Sai ’di gweld *Castaway*.

HAN           Fi’n gwbod bod ti’n unig, Alun, ond –

ALUN          Unig? Sut wyt ti’n gwbod ’mod i’n unig?

HAN           Ti ’di treulio dyddie’n begio i mi beidio â symud.

ALUN          Na.

HAN           Wyt.

ALUN          Pam wyt ti’n dal i fod ’ma, ’te?

HAN           Gwed ti.

ALUN          Cer ’nôl at Luke.

HAN           Danfona fi ’nôl at Luke.

ALUN          Beth?

HAN           Ti sy’n ysgrifennu hwn, ontefe?

ALUN          Sai’n deall.

HAN           Ffuglen. Cymeriadau yn dy ddrama.

ALUN          Na, ma’ Leia’n real. Mae hyn i gyd yn real.

HAN           Profa fe.

ALUN          Profi beth?

HAN           Profa fod Leia’n real. Deffra hi. Ife ’na beth ti’n ’neud? Deffro’r alien?

ALUN          Pod. Pod gyfathrebu.

HAN           O le?

ALUN Ochr arall y bydysawd.

HAN Bangor?

ALUN Solar system arall ar ochr draw'r bydysawd.

HAN Gad i fi a hi sgwrsio.

ALUN Fydd hi ddim yn siarad â ti.

HAN Pam?

ALUN Achos bod ti'n grac.

HAN Fi ddim.

ALUN Ti'n aggresive iawn ar hyn o bryd.

HAN Nadw.

ALUN Wyt.

HAN Na.

ALUN Wyt.

HAN Fi ddim yn fucking aggresive!

*Saib.*

Plîs, Alun. Beth sy'n mynd 'mlaen?

ALUN Rydw i'n ceisio egluro.

HAN Na. Mewn gwirionedd.

ALUN O'n i'n gwybod na fyddet ti'n credu . . .

HAN Ti'n creu stwff, Alun. Ma' dy ddychymyg di'n mynd yn wyllt.

ALUN Doeddet ti ddim yn barod.

HAN Barod am beth?

ALUN Am y gwir. Mae'r ddynol ryw yn dueddol o fod yn gaeedig –

HAN Dynol ryw? Shut up, Alun.

ALUN Fi ond yn dweud y gwir.

HAN Mae angen help . . .

ALUN Mae ein byd ni'n fach. Mae 'na gymaint eto i'w ddarganfod . . .

HAN O'n i ddim yn sylweddoli bod ti fel hyn.

ALUN Gymaint allan yn y bydysawd.

HAN Mi ffonia i'r doctor yn y bore. Therapist neu rywbeth.

ALUN Does dim angen.

HAN Sori . . .

ALUN Beth?

HAN Fi'n sori.

ALUN Am beth?

HAN Ma' marwolaeth Mam wedi bwrw ti'n galetach nag o'n i'n meddwl. Dim ond nawr fi'n sylweddoli.

ALUN Does gan hyn ddim i wneud â Mam.

HAN Seriously, Alun . . .

ALUN Paid dod â Mam i mewn i hyn.

HAN Alun . . .

ALUN Ti fel pawb arall. Neb yn deall. Neb yn stopio i ddeall a gwrando. Jyst barnu. Beirniadu. Mae'n hawdd i feirniadu, on'd yw e, Hanna? Yn haws na gorfod gwrando a trio deall a trio helpu. Rwy'ti'n union fel pawb arall. Yn union fel yr idiots eraill sy'n nodio a gwenu a beirniadu a ddim yn becsu dam amdana i.

*Mae HAN yn mynd i adael.*

Ble wyt ti'n mynd?

HAN Mas.

ALUN I le?

HAN I glirio 'mhen.

ALUN Ble?

HAN Tesco Metro. Ma' ishe lla'th.

ALUN Beth am Leia?

HAN Ffonia i rywun yn y bore.

ALUN Na, nid dyna –

*Mae HAN wedi gadael.*

*Saib.*

(*WRTH LEIA*) Mi ddywedais i.  
Doedd hi ddim yn barod.

*Saib.*

Wyt ti'n clywed?

*Saib.*

Gormod o wybodaeth newydd ar unwaith.  
Dyna'n union beth ddychmygais i fyddai'n digwydd.  
Does dim angen llaeth.  
Esgus i fynd allan.  
'Na i gyd.  
Mae semi skimmed milk yn fwy o atyniad na bywyd o blaned arall.  
Familiarity.  
Dyna'n union ddywedais i, ontefe?

Wyt ti yna?

*Saib.*

Mae hi wedi mynd nawr.  
Mae hi wedi ffoi.

*Saib.*

Wyt ti'n grac?  
Wyt ti'n grac gyda fi am dy ddangos di i Han?  
Dwed.  
Dwed wrtha i os wyt ti.

*Saib.*

Gwrandda . . .

Wyt ti yna?

*Saib.*

Wyt ti yna, Leia?

LEIA Rydw i yma, Alun.

*Tywyllwch.*

*Cerddoriaeth.*

*Yn ofalus, mae ALUN yn codi LEIA yn ei law. Fel Hamlet â phenglog Yorick. Mae'n aros fel hyn yn edrych arni.*

- ALUN Mae gen ti farc arnot ti. Dent bach.
- LEIA Ymhle?
- ALUN Fan hyn.
- LEIA O ganlyniad i'r ergyd.
- ALUN Ie?
- LEIA Yr ergyd wrth lanio.
- ALUN Wyt ti'n ei deimlo?
- LEIA Nid yw pod fel hyn yn trosglwyddo teimladau ffisegol.
- ALUN Rwy'n gweld.
- LEIA Mae'n ymddangos nad yw'r anaf wedi effeithio ar weithrediad y pod. Rydw i'n ddiolchgar i ti am sylwi.
- ALUN Beth am deimladau emosiynol?
- LEIA Ym mha gyd-destun?
- ALUN O ran trosglwyddo teimladau. Ydy'r pod yn gallu trosglwyddo teimladau emosiynol? Wyt ti'n gallu teimlo emosiwn?
- LEIA Ydw.
- ALUN Pob emosiwn?
- LEIA O'r chwe emosiwn sylfaenol, rydw i'n medru teimlo pob un ohonynt.
- ALUN Chwech?
- LEIA Mae gan fodau datblygedig y gallu i deimlo emosiynau sydd yn dod dan chwe changen sylfaenol. Gellir dosbarthu pob emosiwn posib i'r chwe chategori hyn.
- ALUN Am ffordd o symleiddio teimladau!
- LEIA Ond mae'r canghennau sydd yn deillio o'r chwe emosiwn sylfaenol yn gymhleth tu hwnt. Yn ddiddiwedd.



ALUN Felly sut wyt ti'n gallu teimlo?

LEIA Sut wyt ti'n gallu teimlo?

ALUN Mae'n digwydd yn naturiol.

LEIA Dyna yn union sut yr wyf i'n teimlo hefyd, er mai geiriau yw fy unig ffordd i o fynegiant. Mae geiriau yn wyddonol, rhesymegol, ffeithiol.

ALUN Beth am chwerthin? Llafen?

LEIA Nid yw gweithredoedd ffisegol yn rhan o'n hunaniaeth.

ALUN Cwtsh. Allwch chi ddim cwtsho?

LEIA Mae fy nghronfa ddata yn egluro mai coflaid yw cwtsh. Nid yw cofleidio yn rhan o'n hunaniaeth.

ALUN Mae cwtsh yn fwy na coflaid. Mae cwtsh yn . . . special. Mae'n . . . mae'n anodd egluro.

LEIA Rydw i eisiau profi cwtsh.

ALUN Wyt ti?

LEIA Hoffwn deimlo cwtsh os gweli di'n dda.

ALUN Iawn . . .

*Yn araf ac yn betrus, mae ALUN yn rhoi cwtsh hir i LEIA.*

*Saib.*

LEIA Na.

ALUN Na?

LEIA Ni allaf deimlo un o'r emosiynau y soniaist ti amdanynt.

ALUN Dim byd?

LEIA Mae fy synwryddion allanol yn darllen gwasgedd a gwres uchel.

ALUN Sori.

LEIA Pam wyt ti'n ymddiheuro?

ALUN O'n i eisiau i ti deimlo cwtsh.

LEIA Nid yw fy iaith rhaglenni yn galluogi hynny.

ALUN Oo'n i eisiau i ti deimlo'r hyn sy'n digwydd rhwng dau berson. Rhwng pobl ar y blaned yma . . .

LEIA Rwyt ti eisiau cwtsh gan dy fam.

*Saib.*

Mae'r blaned hon yn teimlo ac yn mynegi cariad mewn ffordd arbennig. Gwahanol. Mae'n brydferth.

ALUN Wyt ti wedi teimlo cariad?

LEIA Nid ar lefel ddynol.

ALUN Mae'n unigryw, felly?

LEIA Ydy. Mae'r cariad ar draws y ddaear hon yn eithriadol. Y cysylltiad rhwng bodau dynol. Perthyn. Perthynas. Deuthum i'r blaned er mwyn gweld. Er mwyn deall beth sydd yma.

ALUN Ar dy ben dy hun?

LEIA Ar ôl colli. Er mwyn gwella mewn byd iach.

ALUN Dyw'r ddaear ddim yn iach.

LEIA Mae'n llawn lliw. Yn llythrennol ac yn emosiynol. Mae'n fyd lle mae emosiwn yn gyrru popeth. Mae'n fyd sydd yn wirioneddol fyw.

ALUN Ond mae emosiwn yn gyrru pethau negatif hefyd. Emosiwn yw'r rheswm dros ein dioddefaint. Dros y boen rydym yn ei deimlo mewn colled.

LEIA Mae'n rhaid dysgu i fyw gyda'r boen. Fydd e byth yn diflannu.

ALUN Sut, Leia? Helpa fi i ddeall.

LEIA Does dim i'w ddeall.

ALUN Plis.

LEIA Mae'n rhan o fywyd. Yn y diwedd, mi fyddi di'n gweld . . . 'Per ardua ad astra.'

ALUN Lladin? Sut mae rhyw hen eiriau mewn Lladin i fod i helpu?

LEIA Cyfieithiad . . . "Through adversity to the stars."

*Tywyllwch.*

*Golau i fyny ar ALUN wrth ei laptop.*

*Mae'n agor y prosesydd geiriau.*

*Rydym yn teimlo'r ddaeargryn yn codi unwaith eto, a'r pwysau'n gwasgu ar ALUN.*

Daeargryn

ALUN: Mae profiadau eithafol

*Mae ALUN yn dileu* Mae profiadau eithafol

Pan mae pethau eithafol yn digwydd,

*Mae ALUN yn dileu* Pan mae pethau eithafol yn digwydd,

Yn ystod adegau anodd yn ein bywydau

*Mae ALUN yn dileu* Yn ystod adegau anodd yn ein bywydau

SHIT

SHITSHITSHITSHITSHITFUCKSHITSHITSHITTINGSHITTINGFUCKINGSH  
IT

*Mae ALUN yn dileu'r cyfan. Mae'n eistedd yn ôl yn ei gadair.*

*Tywyllwch.*

*Llais yn y tywyllwch.*

ALUN            (*Llais*) Daeargryn.

*Saib.*

Ar ddiwrnod yr angladd roedd daeargryn.  
 Nid yn San Francisco neu Indonesia.  
 Na.  
 Ar fy stryd i.  
 Ar y stryd gyda'r Tesco Metro a'r bakery sydd wedi cau a'r Ladbrokes  
 'coming soon'.  
 Earthquake yng Nghymru.  
 Ar ddiwrnod angladd Mam.  
 O bob diwrnod posib.  
 O bob diwrnod.  
 Ond peidiwch â gofidio.  
 Cyn i chi, ffrindiau, boeni gormod –  
 Rydw i'n gobeithio ein bod ni'n ffrindiau erbyn hyn.  
 Ydyn ni?  
 Yn ffrindiau?  
 Pa beth bynnag, cyn i chi ofidio, doedd hi ddim yn ddaeargryn fawr.  
 Dau pwynt tri ar y raddfa Richter.  
 Daeargryn wan.  
 "A pensioner's fart," fel dywedodd rhywun ar Twitter.  
 Doedd dim anafiadau.  
 Cwmpodd un shed mewn gardd ar stryd gyfagos.  
 A dyna ni.  
 Dyna aftermath y ddaeargryn.  
 Un shed fach.  
 Pathetic.  
 Ond mi wnaeth i mi feddwl . . .

*Y golau'n codi yn araf iawn. Mae ALUN ar flaen y llwyfan yn siarad gyda'r gynulleidfa.*

Roedd hi'n arwydd.  
 Yn symbol.  
 Fel bod y byd yn gwybod bod rhywbeth mawr yn digwydd.  
 Fel bod yr holl atomau o fewn ein planed a'r holl atomau o fewn ein  
 solar system a'r holl atomau o fewn ein galaxy a'r holl atomau o fewn  
 yr holl blanedau o fewn yr holl solar systems o fewn yr holl galaxies o  
 fewn ein bydysawd – fel eu bod nhw i gyd yn symud mewn ffordd  
 arbennig er mwyn creu'r ddaeargryn hon ar fy stryd i ar ddiwrnod yr  
 angladd.  
 Roedd y bydysawd yn gwybod.  
 Pob darn o fywyd yn ymwybodol o arwyddocâd y diwrnod hwn.

Y foment hon.  
Yn deall beth oedd yn digwydd.  
Daeargryn ar y stryd yn cymysgu gyda'r ddaeargryn yn fy mhen er mwyn paratoi ar gyfer y foment enfawr, erchyll hon.  
Y foment rydw i wedi bod yn aros amdani gydag arswyd.  
Y foment nad ydw i am iddi ddigwydd.  
Ac eto, y bydysawd yn dweud ei fod am ddigwydd.  
Yn gorfod digwydd.  
Funeral Friday.  
Y bydysawd yn fy ngwthio i'r angladd.  
Yn rhoi cic yn fy mhen ôl ac yn dweud "gwranda gw'boi, os yw'r holl atomau o fewn y blaned a'r holl atomau o fewn y solar system a'r holl atomau o fewn y galaxy a'r holl atomau o fewn yr holl blanedau o fewn yr holl solar systems o fewn yr holl galaxies o fewn y bydysawd i gyd yn gallu dod at ei gilydd i greu daeargryn, wel, bloody hell, rwyt ti'n gallu mynd i angladd dy fam."  
Dyna oedd y neges.  
Dyna i fi oedd neges y bydysawd ar y diwrnod enfawr, erchyll hwnnw yn fy hanes.  
Roedd y bydysawd wedi siarad.

*Mae ALUN yn teimlo'r ddaeargryn yn adeiladu y tu mewn iddo. Unwaith eto, mae'n ceisio'i gwthio allan o'i ben ond yn methu. Mae'r ddaeargryn yn rhy gryf. Mae ALUN yn fanig, yn wyllt, yn gweiddi, sgrechian, ei egni'n ffrwydro mewn moment ffyrnig o unigrwydd ac anallu i gyfathrebu. Mae'n dinistrio'r byd y mae wedi'i greu ar y llwyfan wrth iddo geisio ymladd yn erbyn yr anochel.*

*Pan nad oes unrhyw egni ar ôl ganddo, mae ALUN yn cwmpo i'r llawr.*

*'Meddygfa.'*

HAN Mae'r ystafell newydd ei pheintio, yr arogl yn frith, yn cymysgu gyda'r bleach a'r air freshener, blas ultrahylendid, gwledd y clinigol, tician y cloc o eiliad i eiliad yn canu rhythm bywyd y dyn sy'n aros, yn gorfwyta ar baent a bleach ac air freshener, frenzy o Febreze, 'take a seat,' eistedd ac aros a chyfri'r eiliadau, meddyliau'n mynd i bellteroedd dieithr fel trip ysgol Sul i gopa mynydd, yr eira'n blancedu, pobol yn rhewi, yn pydru, bacteria'n ymosod yn araf araf, amhosib, maggots, mould, yn araf, a'r bobol yn chwalu'n friwsion mân wrth i'r dyn neidio, dianc, byth yn glanio, yna'n eistedd yn ôl yn yr ystafell sydd newydd ei pheintio yn aros, maggots a mould a diflannu eto i gopa'r mynydd a'r bobol wedi mynd, neb yno ond y dyn yn neidio, a llais yn galw 'you can go in now'. Hi'n aros tu ôl i'w desg, fel mur yn amddiffyn, tu ôl i'r drws mawr, tu ôl i sgrin ei chyfrifiadur, yn ddiogel, yn edrych, aros i'r dyn i fynegi ei salwch: methu cysgu, methu bwyta, teimlo ofn, anobaith, euogrwydd, anfodlonrwydd, meddyliau hunanladdol, prinder o ddagrau, unigrwydd ond methu bod gyda phobol, 'how can I help?' you tell me, does neb yn deall a neb eisiau deall, 'cheer up,' 'look on the bright side,' 'we're here for a good time not a long time,' yw hynny i fod i helpu? geiriau difeddwl yn gweiddi i wyneb y dyn, FREAK, yn gwneud iddo deimlo'n wan, WEAK, 'pull yourself together,' 'things will get better,' 'stop moping, it's not gonna help anyone,' nid yw hynny'n helpu chwaith, sut mae gwneud i bobol ddeall pan nad yw doctor yn deall? 'you're having a bit of a blip, that's all, you'll be fine' beth yw diffiniad 'fine'? 'come back in a fortnight if you still feel the same,' a beth am y pythefnos hynny? parhau i fyw mewn cwmwl ar frig y mynydd ac eisiau neidio, eisiau teimlo'r cynnwrf, eisiau teimlo rhywbeth o gwbl, 'we can look at a course of medication,' doctor sy'n deall dim ond tabledi, pawb a phopeth yn gemegion mewn tiwb arbrofi dan y meicrosgop, tabledi, tabledi, tabledi mawr, tabledi bach, tabledi hir a phinc a glas, tabledi sy'n mygu pob emosiwn, yn pylu personoliaeth, 'side effects: insomnia, anxiety, dizziness, paranoia, loss of appetite, loss of sex drive,' a neb yn deall, neb yn gweld y dyn yn boddï, yn diflannu, yn troi'n berson gwahanol, ysbryd, gyda phob llynciad o bob tabled diolch i'r dewin ddoctor a'i thric diflannu, dileu dyn a neb yn sylwi, neb yn gweld y trobwll enfawr dwfn yn chwyrlïo'n wyllt wyllt o'u blaenau a neb am achub y dyn, am ddeifio i'r dŵr a helpu, neb eisiau siarad am y peth, neb yn gwybod beth i'w wneud, a'r doctor yn golchi ei dwylo, 'out damned spot,' yn camu o'r car crash, yn pasio'r dyn ar hyd y conveyor belt i'r arbenigwr nesaf, i'r arbenigwr nesaf, i'r arbenigwr nesaf yn ffatri fawr y gwasanaeth iechyd. Ac yna golau, golau yn y ffatri fawr, 'mae hi'n wahanol i'r lleill,' 'rydw i yma i helpu, i wrando,' a'r llaw yn estyn i'r dyfnderoedd, yn tynnu'r dyn o'r dŵr, 'rydw i am ddarganfod ffordd o helpu,' heb dabledi? 'heb dabledi,' a'r dyn, araf

araf, yn dechrau ymddangos eto, o'r cocoon, yn camu i lawr o'r mynydd allan o'r niwl, a'r pydru'n arafu, yn dod i ben, a'r pen yn clirio, yn dechrau gwella, y pwysau'n codi, y byd yn ailagor a'r side effects yn mynd, yn diflannu, yn gadael i boeni rhyw berson bach, FREAK, WEAK, arall.



*Mae ALUN yn gafael mewn iogwrt. Mae'n tynnu'r caead oddi ar y potyn ac yn ei lyfu. Mae ALUN yn mynd ati i fwyta'r iogwrt o'r potyn. Yn araf. Myfyrgar. Holl bwysau'r byd ym mhob llwyaid o iogwrt. Mae'n edrych yn unig, bregus yn y foment hon.*

ALUN           *(I'r tun o 'Quality Street')* Mae'n bosib rhannu pobol yn ddau grŵp.  
 Y rhai sy'n llyfu caead iogwrt a'r rhai sy ddim.  
 Mae yna drydydd grŵp hefyd, sef y rhai sy'n dewis peidio â bwyta  
 iogwrt o gwbl. Ond mae hynny'n difetha'r naratif.  
 O'r ddau grŵp, felly, llyfwr ydw i.  
 Rydyn ni'r llyfwyr yn gwneud y gorau o bethau.  
 Yn tynnu popeth posib o'n profiadau.  
 Pob diferyn bach o iogwrt.  
 Dim gwastraff.  
 Profi popeth i'r eithaf.  
 Dyna'r llyfwyr.  
 Dyna oedd Mam.  
 Dyna ydw i.  
 Oeddwn i.  
 Rydw i'n dechrau meddwl bod pethau wedi newid.  
 Ai llyfwr fydda i mewn blynyddoedd i ddod?  
 Oes posib colli'r elfen lyfu, neu ydy llyfu yn y genynnau?

Rydw i'n dal i eistedd yn disgwyl iddi gerdded i mewn.  
 Fel petai hi ar ei gwyliau ac ar fin dychwelyd.  
 Ar fin cyrraedd adre.  
 Rydw i'n meddwl am gael plant.  
 Plant na fydd yn cwrdd â'u mam-gu.  
 Mam-gu na fydd yn cwrdd â'i hwyrion.  
 Rydw i'n meddwl am yr holl brofiadau oedd ganddi i ddod.  
 Yr holl iogwrt ar yr holl gaeadau.  
 Fy mhriodas.  
 Fy mhriodas heb Mam.  
 Yr holl ben-blwyddi.  
 Nadoligau.  
 A Mam ddim yno.  
 Cadair wag.  
 Rydw i'n poeni am anghofio.  
 Anghofio Mam.  
 Yn teimlo'n euog.  
 Am fwynhau.  
 Am dreulio diwrnod heb feddwl amdani.  
 Am chwerthin.  
 Am beidio crio.  
 Ym mhob darn o hapusrwydd.  
 Ym mhob darn o gyffro.  
 Euogrwydd.

Ac rydw i ofn.  
Ofn y newid.  
Ofn gweld dieithryn yn y drych.  
Y chwerthin.  
Y positifrwydd.  
Hynny'n dod i ben.  
A minnau'n anghofio llyfu.  
Anghofio llyfu caead bywyd.

*Mae HAN yn ymddangos ar 'Skype'.*

HAN           Fucking hell, Alun. Monolog am bloody yogurt? O's shares 'da ti yn Müller neu rywbeth?

*Mae ALUN yn ôl o flaen ei laptop.*

ALUN           Beth sy'n bod 'da fe?

HAN           Mae e'n self-indulgent, Alun. Mae'r ddrama gyfan yn ofnadw o self-indulgent.

ALUN           Pwy wyt ti i feirniadu? Sut wyt ti'n gallu beirniadu fy ysgrifennu i? Ti ofynnodd i gael darllen hwn i gyd.

HAN           Sori.

ALUN           Rydw i wedi rhannu pethau personol. Wedi ymddiried ynot ti.

HAN           Constructive criticism. O'n i'n trio helpu. Fi'n falch bod ti 'di rhannu.

ALUN           Therapi. Dyna ddywedaist ti. Dyna ddywedon nhw. Dyna ddywedodd Leia. Ysgrifennu fy nheimpladau i lawr. 'Get it all out.' Mae'n helpu.

HAN           Yw e?

ALUN           Ydy. Rydw i wedi creu byd lle mae fy nheimpladau'n gallu anadlu.

HAN           Fi'n falch am hynny.

ALUN           Mae'n anniben, on'd yw e?

HAN           Dros y lle i gyd.

ALUN           Ond mae'r galaru'n anniben. A heb ysgrifennu hwn i lawr, fydde gen i ddim ffordd o'i fynegi.

HAN           Mae'n dda. Mae'n iach.

ALUN Mae'n anghyson. Mae'n gymysglyd.

HAN Mae'n bwrpasol fel 'na. Mess dramatig. Fydd neb yn hollol siŵr beth sy'n real a beth sydd wedi'i greu.

*Mae'r signal 'Skype' yn dechrau gwanhau.*

ALUN Byd o fewn byd o fewn byd.

HAN Bydysawd.

ALUN Ehangu ar realiti.

HAN A beth am Leia?

*Saib.*

ALUN Beth amdani?

HAN Ble mae hi?

ALUN Fydd hi yma tra 'mod i ei hangen hi.

HAN Rwy'n gweld . . .

A fi?

ALUN Ti?

HAN Ie.

*Mae HAN yn diflannu am eiliad.*

ALUN Rydw i'n barod i ti fynd.

HAN Wyt ti?

ALUN Ydw.

HAN Ma' hwn yn benderfyniad mawr.

ALUN Fi'n gwybod.

HAN OK . . . os 'na be ti'n mo'yn.

*Mae ALUN yn nodio.*

Grêt.

*Mae HAN yn diflannu am eiliad arall.*

ALUN        Han . . ?

HAN         le?

ALUN        Fi ishe dweud diolch . . .

*Mae HAN yn gwenu.*

Ti'n clywed?

*Mae HAN yn diflannu'n gyfan gwbl.*

Fi ishe diolch i ti am –

*Mae ALUN yn sylwi bod HAN wedi mynd. Mae'n syllu ar y sgrin. Yn syllu i'r gofod lle'r oedd HAN yn eistedd eiliadau ynghynt.*

*Statig ar y sgrin.*

*Tywyllwch.*

*Sŵn bywyd a'r bydysawd.*

LEIA: (*Llais*) O eni'r blaned pedwar pwynt pump biliwn o flynyddoedd yn ôl, rwyd ti wedi bod yno. O'r dechrau. Rwyd ti yma. Rwyd ti wedi byw'r daith ac wedi goroesi.

Rwyd ti wedi dysgu sut i siarad. I ymladd. I garu. Galaru.

Rwyd ti wedi newid. Rwyd ti wedi esblygu. Fyddi di'n berson gwahanol ar ôl hwn, ac mae hynny'n iawn. Mae'n naturiol. Rhaid derbyn y newid a symud ymlaen. Derbyn y person wyt ti nawr gan gofio'r person oedd yno ddoe. Peidio ag anghofio. Paid byth ag anghofio. Bydd hynny'n aros gyda ti am oes.

Y profiadau hyn sydd wedi ein llunio dros filoedd ar filoedd ar filiynau ar biliynau o flynyddoedd. Y profiadau hyn fydd yn parhau i dy lunio di yfory . . .

*Y llais yn diflannu'n araf, fel petai'n teithio'n bellach . . .*

Ac yfory . . .

*. . . ac yn bellach i ffwrdd . . .*

Ac ymlaen i'r sêr.

*. . . i fannau pella'r bydysawd.*

*Mae ALUN yn eistedd o flaen y laptop.*

*Saib.*

*Mae'n teipio.*

Dweud ffarwél.

*Saib.*

*Mae'n dileu'r cyfan ac yn teipio Ffarwelio.*

ALUN            Un diwrnod.

*Mae ALUN yn dechrau newid ei ddillad: crys gwyn, tei du, trowsus du, belt ddu, siaced siwt ddu ac esgidiau du. Mae'n gadael ei ddillad gwreiddiol yn anniben dros y llawr.*

*(Wrth wisgo) Un diwrnod swyddogol.  
Cyhoeddus.  
I ddweud –  
Parchus.  
I ddweud hwyl fawr.*

*Ac yna mae'r galaru wedi gorffen.  
Popeth anodd wedi mynd.  
Yn ôl rhai.  
Wedi ei lusgo i'r tywyllwch.  
I fannau pella'r bydysawd.  
Pawb yn anghofio.  
Yn mynd yn ôl.  
Yn diflannu.  
Yn gadael y galarwyr i alaru.  
Yn dawel.  
Diolwg.  
Preifat.  
A'r fish paste Fridays yn parhau.  
Fel petai dim wedi newid.  
Fel petai neb wedi mynd.*

*Golchi'r tristwch lawr y sinc.  
Cario 'mlaen cyn sychu'r inc.  
Neb yn deall.  
Neb yn cofio.  
Oriau'n pasio.  
Cloc yn ticio.  
Ysgrifennu lawr fy mhroblem.*

Rhyddhau enaid.  
Creu fy anthem.  
Darllen.  
'Sgwennu.  
Ysgrifennu.  
Therapi i'r creadigol.  
Inbox. Detox emosiynol.  
Creu. Byd.  
Creu. Gair.  
Creu. Drama.  
Creu. Chwaer.  
Dyma gân i'r bobol unig.  
Rhai di-lais a chatatonig.  
Carcharorion yn eu byd, hyd a lled yr haen atomig.  
Creaf hwn i'r rhai sy'n wylo.  
Dwylo clwm a cwlwm glwyfau.  
Rhai sy'n byw mewn holl-dywyllwch.  
Eraill llwm yn nyfnder düwch.  
Pryder.  
Poenus.  
Pwysau'n palu.  
Pili pala'n methu hedfan.  
Methu deall.  
Methu coelio.  
Methu byw ar sail anghofio.  
Dyn yn crio.  
Dyn yn tagu.  
Atgof.  
Adlais.  
Mam yn magu.  
  
Dyn yn boddi mewn trafferthion.  
Cyfansoddi 'Ode i'r Estron'.

*Saib.*

### ***Daeargryn***

*Y sain yn atseinio ar draws y bydysawd, yna'n setlo. Tawelwch ar ôl y twrw.*

*Mae'r bydysawd wedi siarad – y ddaeargryn yn arwydd i ALUN ei fod yn gorfod wynebu'r angladd.*

*(I'r tun 'Quality Street') Mae'n amser, Leia.*

*On'd yw e?*

*Mae'n agor y tun ac yn darganfod ei fod yn wag. Mae LEIA wedi mynd.*

*Mae ALUN yn gollwng y tun ar y llawr.*

Dyn. Siwt, tei ac ati. Ugeiniau canol.

Hwn yw ALUN. Mae'n sefyll mewn tawelwch. Wrth ei draed,  
tun gwag.

*Saib.*

*Mae ALUN yn edrych at y drws.*

*Yn araf, mae'n cerdded ato.*

*Saib.*

*Mae ALUN yn agor y drws ac yn gadael y llwyfan.*



*Cerddoriaeth.*

*Ar y sgrin, ALUN. Siwt, tei ac ati.*

*Y camera'n dilyn ALUN wrth iddo gerdded allan o'i fflat. Mae'n cerdded tua'r stryd fawr. Heibio'r Tesco Metro. Heibio'r heidiau o bobl. Mae'n croesi heol neu'n defnyddio lôn danffordd. Yn cerdded trwy barc, efallai. Yn pasio cannoedd o bobl. Pob un ar drywydd gwahanol, unigryw.*

*Ac ALUN yn ei fyd bach ei hun.*

*Yn ystod yr uchod, mae ALUN yn mynd i eistedd gyda'r gynulleidfa. Mae'n gwyllo'r ffilm.*

*Ar y sgrin, mae ALUN yn dod i stop mewn man prysur. Canol y ddinas, efallai. Mae'n troi i wynebu'r camera. Yn hollol lonydd. Mae'r ffilm yn cyflymu. Mae'r byd yn parhau i symud o'i amgylch. Yn gyflym. Fel bod popeth yn symud yn gyflym iawn ac ALUN yn y canol yn llonydd ac yn syllu'n syth at y camera.*

*Ac mae ALUN yn gwyllo yn y theatr. Yn rhan o'r gynulleidfa.*

*Ar ôl tipyn, mae'r ffilm yn arafu. Yn dychwelyd i gyflymder naturiol y byd.*

*Mae ALUN yn troi ei sylw at yr awyr. Yn edrych i fyny at y gofod anferth, diderfyn uwch ei ben.*

*Ac mae ALUN yn gwenu.*

*Diwedd*